

# Gosod rheolaethau prisiau yn 2014

Nodyn briffio ar gyfer busnesau a chwsmeriaid dibreswyl eraill yng Nghymru

[www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk)

## Darparu dŵr cynaliadwy

**F**el cwsmer dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru rydych yn haeddu gwasanaeth ardderchog am bris teg. Ni yw'r rheolydd economaidd ar gyfer y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Ein nod yw gwneud yn siŵr bod eich cwmni dŵr yn darparu'r gwasanaeth yr ydych chi am ei gael am bris sy'n werth da am arian.

Rydym yn ymgynghori ar sut y byddwn yn gosod y pris a'r pecyn gwasanaeth ('rheolaethau pris') y bydd yn rhaid i'r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a dŵr yn unig sydd â'r monopoli eu darparu ar gyfer pob un o'r pum mlynedd o 2015 hyd 2020. Rydym wedi datblygu ein fframwaith methodoleg terfyn prisiau drwy ymgynghori'n eang gyda:

- cwsmeriaid fel chi;
- cwmnïau dŵr;
- Llywodraeth Cymru;
- Llywodraeth y DU; a
- rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector dŵr.

Mae'r nodyn briffio hwn yn amlinellu beth mae ein cynigion yn ei olygu i chi.

Nodwedd allweddol o'n cynigion yw, am y tro cyntaf, gosod rheolaethau prisiau ar wahân ar gyfer:

- gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth adwerthol i gwsmeriaid preswyl;
- gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth adwerthol i gwsmeriaid dibreswyl (busnes);
- gwasanaethau dŵr cyfanwerthol; a
- gwasanaethau carthffosiaeth cyfanwerthol.

Drwy osod y rheolaethau arbennig hyn, gallwn dargedu ein rheoleiddio ar wahanol weithgareddau y mae cwmnïau yn eu gwneud. Mae hyn yn hanfodol os ydym am eu hannog i ganolbwyntio ar yr hyn mae eu cwsmeriaid eisiau, tra'n datblygu effeithlonrwydd. Rydym eisiau cadw prisiau i lawr, tra'n annog arloesedd ac atebion cynaliadwy i reoli'r adnodd gwerthfawr hwn.

## Trosolwg

Yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei '[Ddatganiad Sefyllfa ar y Polisi Strategol ar Ddŵr](#)', a oedd yn amlinellu ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer y sector dŵr. Mae hyn yn dilyn 'Y Rhaglen Llywodraethu' yn 2010 ac yn adeiladu ar ddogfennau strategaeth eraill sy'n hybu datblygu cynaliadwy ar draws Cymru.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector dŵr yng Nghymru yn cynnwys:

- cadw biliau ar lefelau fforddiadwy drwy roi dewis o opsiynau codi tâl, gan ddiogelu grwpiau agored i niwed a lleihau dyled ddrwg;
- rhoi cwsmeriaid wrth galon y sector dŵr yng Nghymru a lleihau'r baich rheoleiddiol; a
- darparu amgylchedd ansawdd dŵr gwell yn ogystal â bodloni rhwymedigaethau amgylcheddol Ewropeaidd.

Mae ein fframwaith arfaethedig yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn a bydd yn:

- helpu i ddarparu **gwell gwasanaeth** ar eich cyfer;
- sicrhau **cyflenwad sicr, cynaliadwy**; a
- darparu **cefnogaeth i'n heconomi mewn cyfnod caled**.

## 1. Gwell gwasanaeth i chi

Gwyddom fod busnesau fel eich un chi o dan bwysau sylweddol yn y cyfnod economaidd caled hwn. Gwyddom hefyd eich bod dan bwysau cyson gan eich cwsmeriaid a'ch cystadleuwyr i ddarparu mwy am lai. Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr bod yr un pwysau yn cael ei roi ar eich cwmni dŵr monopoli lleol ar eich rhan.

Un gost nad oes gennym fawr o reolaeth drosti yw rheoli eich ymwneud â'ch cyflenwr gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth.

Gall y ffordd yr ydych yn derbyn eich gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth fod yn gymhleth. Caiff cwmnïau sydd â nifer o fannau gwerthu eu trin yn aml fel cwsmeriaid gwahanol, er gaethaf eu bod yn perthyn i un busnes. Gwyddom am rai cwsmeriaid sydd wedi cyflogi ymgynghorwyr allanol i wneud yn siŵr bod eu biliau yn cael eu rheoli'n iawn a bod unrhyw gamgymeriadau yn cael eu cywiro.

Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi penderfynu mai rhan o'r ffordd i fynd i'r afael â'r broblem hon yw rhoi'r gallu i gwsmeriaid dibreswyl i ddewis eu cyflenwr gwasanaeth dŵr a charthffosiaeth. Bydd hyn yn

galluogi cwsmeriaid i drafod atebion sy'n bodloni eu hanghenion busnes. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu canlyniadau effeithiol ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl yng Nghymru, a bydd y 'Strategaeth Dŵr i Gymru' yn amlinellu dewisiadau ar sut i gyflawni hyn.

### Beth ydym yn bwriadu ei wneud a sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi

Byddwn yn rheoleiddio biliau i gwsmeriaid busnes yng Nghymru mewn modd sydd ar y cyfan yn debyg i sut yr ydym yn rheoleiddio yn Lloegr. Byddwn yn gosod rheolaeth adwerthol rwymol ar wahân i gwsmeriaid dibreswyl a fydd yn caniatáu i ni dargedu ein rheoleiddio yn well.

Er mwyn sicrhau bod biliau'n aros yn deg, byddwn yn gosod tariff diofyn – neu uchafswm pris am isafswm lefel gwasanaeth. Yna bydd rhyddid i gwmnïau dŵr ymateb i'r galw gan y cwsmer am dariffau neu wasanaethau gwahanol, arloesol. Er mwyn gwneud y sector dŵr yn debyg i sectorau eraill, ni fydd cwmnïau'n gallu codi rhan adwerthol eich bil – sy'n adlewyrchu costau eich gwasanaethu chi fel cwsmer, megis anfon biliau – yn awtomatig yn ôl chwyddiant bob blwyddyn mwyach (er y bydd costau cyfanwerthu yn parhau i fod yn fynegrifol i'r Mynegai Prisiau Manwerthu, neu RPI, er mwyn cadw costau ariannu yn isel). Yna bydd rhyddid i gwmnïau dŵr ymateb i'r galw gan y cwsmer am dariffau neu wasanaethau gwahanol, arloesol.

Er mwyn gwneud yn siŵr bod yr hyn y mae eich cwmni dŵr yn ei ddarparu (a'r hyn yr ydych chi'n talu amdano) yn adlewyrchu eich anghenion, rydym wedi ei gwneud hi'n ofynnol i bob un ohonynt wella eu hymgysylltu â'u cwsmeriaid a sefydlu grŵp her cwsmeriaid (CCG).

Bydd y grwpiau hyn yn dal cwmnïau dŵr i gyfrif wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau. Os nad yw eu cynlluniau busnes yn rhoi ystyriaeth i flaenoriaethau eu cwsmeriaid, byddwn yn eu herio ac yn gofyn am newidiadau. Os bydd y CCG yn dweud wrthym fod y cwmni wedi ymgysylltu'n dda a bod y cynlluniau yn adlewyrchu'r hyn y mae cwsmeriaid ei eisiau, byddwn yn fwy tebygol o dderbyn y canlyniadau y maent yn eu cynnig ac yn canolbwyntio ar herio costau.

Gan na fyddwch yn gallu dewis cyflenwr, byddwn yn parhau i hybu gwell gwasanaethau i gwsmeriaid busnes yng Nghymru drwy reoleiddio sydd wedi ei dargedu. Er enghraifft, bob blwyddyn byddwn yn sgorio ac yn cymharu perfformiad cwmnïau dŵr ar faterion megis:

- cwynion;
- amseroedd galw allan; a'r
- amser a gymerir i wneud atgyweiriadau.

Dyma ein cynllun cymhelliant gwasanaeth (SIM). Byddwn yn parhau i ddefnyddio math o SIM yng Nghymru ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl. Byddwn hefyd yn rhoi her effeithlonrwydd i adwerthwyr dibreswyl, er mwyn eu hannog i leihau eu costau.

Bydd eich busnes hefyd yn elwa o effeithlonrwydd mewn gwasanaethau cyfanwerthu (ffynonellu, trin a chludo dŵr), a fydd yn sicrhau mwy o werth am y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn a bod eich arian yn cael ei wario yn y manau y mae mwyaf ei angen.

## 2. Sicrhau cyflenwad sicr, cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod dŵr yn un o'n hadnoddau mwyaf gwerthfawr. Ac mae ei reoli mewn modd cynaliadwy yn dod yn fwyfwy heriol gyda'r patrymau tywydd newidiol. Y flwyddyn 2012 oedd yr ail wlypaf ers dechrau cadw cofnodion tywydd yn y DU. Ac [mae pedair o'r pum mlynedd wlypaf wedi bod ers 2000](#) – rhan o'r patrwm byd-eang tuag at ddigwyddiadau glawiad mwy eithafol. Mae effaith hyn yn ddifrodus – yn ystod 2012 dioddefodd ychydig dros 1,000 eiddo yng Nghymru gan lifogydd.

Er na ddioddefodd Cymru unrhyw sychder yn 2012 roedd nifer o gwmnïau yn ne ddwyrain Lloegr yn gosod cyfyngiadau ar faint o ddŵr y gallai eu cwsmeriaid ei ddefnyddio. Achoswyd y sychderau hyn gan lefelau dŵr daear eithriadol isel mewn nifer o ardaloedd yn Lloegr oherwydd mai [y 18 mis blaenorol oedd y rhai sychaf am dros 100 mlynedd](#).

Mae hwn yn fater allweddol yng Nghymru, lle mae [ymchwil](#) yn awgrymu y bydd bygythiad cynyddol o lifogydd yn y gaeaf, a sychder yn yr haf.

Ar yr un pryd mae ein poblogaeth yn tyfu, mae lle mae pobl yn dewis byw yn effeithio ar y galw am ddŵr ac mae diwydiannau dwys o ran defnydd dŵr yn ymddangos – megis 'ffracio' (ar gyfer nwy siâl).

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod dŵr ar gael yn y manau ac ar yr adegau yr ydym ei angen fwyaf. Yn ôl Asiantaeth yr Amgylchedd, mae dros hanner afonydd y DU yn dioddef o ordynnu dŵr (sy'n golygu bod gormod o ddŵr yn cael eu cymryd ohonynt) tra bod digonedd o gyflenwad mewn eraill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, caiff llai na 5% o ddŵr yn y DU ei fasnachu rhwng cwmnïau ar draws rhanbarthau. Mae llawer o'r rhain wedi eu seilio ar gytundebau etifeddol sydd ddim o reidrwydd yn adlewyrchu gwir werth dŵr.

Mae'r heriau yr ydym yn eu hwynebu yng Nghymru yn adlewyrchu'r hyn sy'n digwydd yn fyd-eang, sy'n golygu bod dŵr yn dod yn bwysicach ar yr agenda ledled y byd. Yn wir, mae rhai sylwebyddion ynni wedi awgrymu mai dŵr yw'r olew newydd<sup>1</sup>.

### Beth ydym yn bwriadu ei wneud a sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi

Bydd gwneud i gwmnïau dŵr ganolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau y mae eu cwsmeriaid am eu gweld yn golygu y bydd ganddynt fwy o ryddid i benderfynu sut i sicrhau'r canlyniadau hynny. Gallai hyn arwain at ffyrdd newydd o weithio a allai ddarparu'r gwasanaethau

yr ydych eu heisiau, am lai o arian gyda llai o effaith ar yr amgylchedd.

Er enghraifft, yn hytrach na chynyddu biliau drwy adeiladu gwaith trin dŵr drud er mwyn bodloni safonau amgylcheddol, gallai cwmni weithio gyda ffermwyr lleol a pherchnogion tir i atal llygredd rhag mynd i mewn i'r afonydd yn y lle cyntaf, a allai fod yn ateb rhatach, mwy cynaliadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi atebion rheoli galw, yn cynnwys masnachu dŵr. Fel rhan o hynny, rydym eisieu rhoi mwy o ryddid i gwmnïau dŵr arloesi a dod o hyd i atebion mwy cynaliadwy er mwyn bodloni'r galw, tra'n cynyddu gwytnwch. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod ganddynt y cymhelliannau cywir i wneud penderfyniadau gwybodus yn seiliedig ar ddeall gwir werth dŵr, yn cynnwys y ffordd orau i fodloni pwysau cyflenwad a'r galw. Bydd y rheolaethau prisiau cyfanwerthol yr ydym yn eu rhoi ar waith yn eu hannog i reoli adnoddau dŵr yn fwy cynaliadwy fel bod eich cyflenwadau yn fwy sicr – yn enwedig yn ystod cyfnodau o sychder.

Byddwn yn annog arloesedd drwy symud rhwystrau rheoleiddiol, a fydd yn arwain at ddulliau mwy cynaliadwy. Byddwn yn:

- trin gwariant gweithredol (opex) a gwariant cyfalaf (capex) cwmnïau yn yr un ffordd, fel bod cwmnïau'n fwy tebygol o ddewis yr ateb gorau yn hytrach na'r dewis cyfalaf (a charbon) dwys traddodiadol;

<sup>1</sup> Cylchgrawn Forbes, 3 Mai 2012

- annog masnachu dŵr effeithlon ar draws ffiniau cwmnïau; a
- creu mecanwaith cymhelliant tynnu dŵr (AIM) er mwyn gwobrwyo cwmnïau sy'n ffynonellu dŵr o fannau lle nad yw'n niweidio'r amgylchedd – a chosbi'r rhai hynny os byddant yn ei dynnu o fan lle mae'n gwneud niwed i'r amgylchedd.

### 3. Cefnogi ein heconomi mewn cyfnod caled

Mae cwmnïau effeithlon ac effeithiol yn dda ar gyfer economi Cymru. Mae trosiant y sector dŵr yng Nghymru ar hyn o bryd tua £700 miliwn y flwyddyn, ac mae tua £7.8 biliwn wedi ei fuddsoddi dros y 24 mlynedd diwethaf. Bob blwyddyn bydd cwmnïau dŵr yng Nghymru yn gwario tua £350 miliwn ar wella gwasanaethau i gwsmeriaid a gwella a chynnal yr amgylchedd.

Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y buddsoddiad hwn yn parhau i'r dyfodol. Fodd bynnag, efallai nad atebion y gorffennol fydd yr atebion iawn ar gyfer y dyfodol. Mae heriau newydd sy'n dod i'r amlwg yn golygu bod angen i gwmnïau dŵr fod yn fwy arloesol er mwyn darparu atebion effeithlon a chynaliadwy ar gyfer yr hirdymor sy'n esblygu gyda'ch busnes, heb ychwanegu at eich costau.

#### Beth ydym yn bwriadu ei wneud a sut bydd hyn yn effeithio arnoch chi

Wrth i heriau newydd ddod i'r amlwg, yn cynnwys diwydiannau newydd a defnyddiau newydd ar

gyfer dŵr sy'n newid y galw amdano o fewn yr economi, bydd ein fframwaith yn rhoi rhagor o hyblygrwydd i'r sector dŵr i ymateb.

Rydym yn creu amgylchedd lle gall cwmnïau dŵr eich gwasanaethu'n well, tra'n dal i gadw costau'n deg. Bydd ein rheolaethau pris adwerthol wedi'u targedu yn sicrhau bod cwmnïau yn ceisio sicrhau effeithlonrwydd, ac fe'u hanogir i ddarparu atebion mwy arloesol. Nod y dull hwn yw cadw costau mewnbwn i lawr a chefnogi twf.

Bydd hyn yn golygu gwell atebion i chi, am bris fforddiadwy. Amcangyfrifir y bydd ein diwygiadau adwerthu, ochr yn ochr â diwygio'r farchnad yn Lloegr yn rhoi £500 miliwn i economi'r DU<sup>2</sup>. Gallai ein diwygiadau oddi wrth y cwsmer (megis cefnogi masnachu dŵr sy'n cydnabod gwir werth dŵr) helpu i roi gwerth £2 biliwn arall o fanteision ar draws Cymru a Lloegr.

Ac er mwyn gwneud yn siŵr y gall cwmnïau dŵr sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen i gyflawni'r manteision hyn, byddwn yn parhau i reoleiddio agwedd monopoli y sector dŵr mewn ffordd dryloyw, risg isel, yn cynnwys cysylltu prisiau cyfanwerthol i'r RPI. Bydd y sefydlogrwydd a geir gan hyn yn cadw cost benthyca ar gyfer cwmnïau dŵr yn isel, gan alluogi iddynt sicrhau ariannu fforddiadwy hirdymor a chadw eich biliau i lawr.

### Casgliad

Mae'n hollbwysig bod y sector dŵr yn canolbwyntio ar y cwsmer, yn wydn ac yn effeithlon, a bod dŵr yn cael ei werthfawrogi fel adnodd gwerthfawr a chyfyngedig. Drwy'r fframwaith hon rydym eisïau gwneud yn siŵr:

- y gall cwmnïau wneud y penderfyniadau cywir wedi eu seilio ar wir werth dŵr i'n heconomi, ein hamgylchedd a'n cymdeithas;
- bod buddsoddwyr yn cadw eu hyder yn y sector dŵr ac y gellir cael yr arian sydd ei angen er mwyn parhau i fuddsoddi am bris da i gwsmeriaid;
- gall busnesau – ac, yn ei thro, yr economi – elwa gan ragor o ddewis a dylanwadu ar y gwasanaethau eraill y maent yn eu derbyn; a
- bod gan ddefnyddwyr wasanaeth gwydn a'u bod yn talu pris teg.

<sup>2</sup> 'Terfynau prisiau yn y dyfodol – datganiad egwyddorion. Atodiad 1: Asesiad Effaith', Ofwat, 2012

## Rhagor o wybodaeth

'Involving customers in price setting – Ofwat's customer engagement policy statement', Ofwat, Awst 2011

'Future price limits – statement of principles', Ofwat, Mai 2012

'High emissions scenarios', UK Climate Projections, Mai 2012

'Consultation on retail price controls for the 2014 price review', Ofwat, Gorffennaf 2012

'Consultation on wholesale incentives for the 2014 price review', Ofwat, Awst 2012

'Review of the 2010-2012 drought and prospects for water resources in 2013', Asiantaeth yr Amgylchedd, Rhagfyr 2012

'Met Office: 2012 was UK's second wettest year on record', Newyddion y BBC, Ionawr 2013

**Adran ddi-weinidog o'r llywodraeth yw Ofwat (Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr). Yr ydym yn gyfrifol am sicrhau bod y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr yn darparu gwasanaeth effeithlon o ansawdd da i gwsmeriaid am bris teg.**

**Dŵr heddiw, dŵr yfory**



Ofwat  
Centre City Tower  
7 Hill Street  
Birmingham B5 4UA

Ffôn: 0121 644 7500  
Ffacs: 0121 644 7699  
Gwefan: [www.ofwat.gov.uk](http://www.ofwat.gov.uk)  
E-bost: [mailbox@ofwat.gsi.gov.uk](mailto:mailbox@ofwat.gsi.gov.uk)

Argraffwyd ar isafswm o 75% bapur gwastraff  
ôl-ddefnyddwyr heb inc  
Ionawr 2013

© Hawlfraint y Goron 2013